

CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod, Nos Fercher, 25 Tachwedd 2015 yng Nghapel Swyddffynnon
Minutes of Meeting held, Wednesday 25 November 2015 at Swyddffynnon Chapel

Yn bresennol / Present: Siarl Owen, Thomas Jones, Tomos Jones a Rhodri Davies.

Ymddiheurio / Apologies: Dafydd Jones, Wyn Evans a David M. Jones

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 29 Hydref 2015 fel rhai cywir.

Minutes of meeting 29 October 2015 were received as a correct record.

Materion yn codi / Matters arising

Maes Chwarae: Roedd Iwan Arch wedi torri'r coed i gyd nôl yn y Maes Chwarae. Rydym yn parhau i aros James Butler i ddelio efo'r cyfarpar o ran gosod "cuplings" newydd ar y siglen. **Playing Field:** Iwan Arch has undertaken the work of cutting back the trees at the Playing Field. We now wait James Butler to place the new cuplings on the swings.

Gohebaieth / Correspondence

1. Eisteddfod Swyddffynnon: Derbyniwyd cais am rodd ariannol at Eisteddfod Swyddffynnon, cytunwyd i rodd o £70. Datganwyd diddordeb gan y Clerc, Annwen Isaac. Swyddffynnon Eisteddfod: a request was received for a donation towards Eisteddfod Swyddffynnon, it was agreed to give £70. Declaration of interest was shown by the Clerk, Annwen Isaac.
2. Biniau Grit: Cadarnhawyd bod biniau wedi ei gosod ar Lon Gelli, Sgwar Swyddffynnon a Cwm Nêlm, Gwnnws. *Grit Bins had been placed on Lon Gelli, Swyddffynnon Square and Cwm Nêl, Gwnnws.*
3. Gwasanaeth Carolau Nadolig – cytunwyd i ohirio cynnal y gwasanaeth yng Nghapel M.C. Swyddffynnon, gan nad oedd dyddiad addas a chyfleus i bawb ar gael. *Christmas Carol Service – it was agreed to postpone the service at Swyddffynnon M.C. Chapel, as it was not possible to have a convenient date for all.*
4. CSC Pwyllgor Rheoli Datblygu 11 Tachwedd 2015 – debryniwyd agenda a phapurau'r pwyllgor. *CCC Development Control Committee – agenda and papers for the meeting 11 November were received.*
5. Cinio Blynyddol – Clwb Rygbi Tregaron, Nos Wener, 4ydd Rhagfyr 2015 am 7.30 o'r gloch. *Annual Dinner – Tregaron Rugby Club, Friday, 4th December 2015 at 7.30pm.*
6. Cyflwr Heolydd: yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod a'r tywydd garw wedi hynny fe wnaeth y Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i dynnu ei sylw at gyflwr yr heolydd yn gyffredinol yn yr ardal gan bwysleisio yr angen i lanhau rhyw Tynlone tuag at Castell Flemish a glanhau y gwteri. Condition of Roads: following a discussion during the meeting and the terrible weather following the Clerk wrote to Ceredigion County Council to draw their attention to the condition of the roads in general and to emphasise the need to clean the road from Tynlone Hill towards Castell Flemish and to clean gutterings.

